# Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

## 2 Chwefror 2022

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.40am)

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am fod yn absennol.

## 2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Hydref 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Gofynnwyd am i baragraff olaf Cofnod 4 gael ei newid i roi'r cyfran o Aelodau oedd wedi cwblhau eu Cynlluniau Cymorth Personol, h.y. 10 o 18 Aelod.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Hydref 2021 yn amodol ar y newid uchod.

## 4. Diweddariad Cyffredinol ar Gefnogi a Datblygu Aelodau

a) Siarter Uwch

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Awdurdod ar lwyddo i wireddu'r Siarter Uwch ar Gefnogi a Datblygu Aelodau gan fynegi ei balchder yn y llwyddiant. Diolchodd i swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod oedd wedi cael eu cyfweld gan y Panel, a nododd bod yr Awdurdod yn un o ddim ond pedwar Awdurdod yng Nghymru oedd yn dal y wobr, a'r unig Barc Cenedlaethol.

Roedd y Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Democrataidd yn dymuno ychwanegu ei diolch i bawb a gymerodd ran yn adolygiad y Panel, a diolchodd i Gynorthwyydd y Gwasanaethau Democrataidd am ei chymorth i gasglu'r dystiolaeth i'w chyflwyno. Aeth ymlaen i dynnu sylw'r Aelodau at y llythyr dyfarnu a'r dystysgrif oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, a nododd bod y llythyr yn cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses eto fyth o Ddatblygu Aelodau. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ar yr awgrymiadau hyn.

Roedd yr eitem gyntaf yn ymwneud ag adolygu'r Llawlyfr Aelodau cyn yr etholiadau Awdurdod Lleol a gynhelir cyn hir. Dywedodd y swyddog mai'r gobaith oedd y byddai'r wybodaeth yn cael ei chynnwys ar yr Hyb Aelodau i'w chreu fel rhan o'r trawsnewid i Microsoft 365, yn hytrach na drwy'r cryno ddisgiau a ddosbarthwyd yn flaenorol i Aelodau newydd, gan ei bod yn haws diweddaru hyb a'i chyrchu. Roedd rhestr o'r dogfennau oedd yn y llawlyfr ar hyn o bryd ynghlwm wrth yr adroddiad. Ymhlith awgrymiadau'r Aelodau am ddogfennau eraill i'w hychwanegu oedd manylion am y broses Adolygu Datblygiad Personol, y cynllun cyfeillio, a'r protocol cyfarfodydd digidol ac o bell; awgrymwyd y gellid dangos y wybodaeth mewn modd mwy rhesymegol yn hytrach nag yn nhrefn yr wyddor. Awgrymodd y Prif Weithredwr y byddai amlinelliad o le'r Awdurdod yng nghyd-destun y DU a Chymru hefyd yn ddefnyddiol i Aelodau newydd, ac y byddai'n darparu'r wybodaeth honno.

Hefyd roedd y Panel wedi awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Awdurdod roi disgrifiadau unigol wedi'u teilwra ar gyfer pob Aelod, oedd yn cynnwys eu holl rolau a chyfrifoldebau. Roedd y mwyafrif o'r Aelodau yn gefnogol i'r syniad, ond yn bryderus y gallai hyn fod yn dasg feichus i'r swyddogion. Sicrhaodd y swyddog na fyddai'n anodd rhoi'r disgrifiadau hynny i Aelodau unigol sy'n berthnasol iddynt hwy. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig sicrhau bod pob Aelod yn gallu cyrchu pob disgrifiad rôl gan ei fod o'r farn y gallai hynny fod yn bwysig i'w datblygiad personol.

Yn olaf, roedd y Panel wedi nodi bwriad yr Awdurdod i adolygu ei Gynllun Cyfeillio. Roedd y cynllun peilot ond wedi cynnwys Aelodau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd mai'r bwriad oedd cynnig y cynllun i bob Aelod, a bod adborth gan y rhai fu'n rhan o'r peilot wedi awgrymu y byddai Cynghorwyr ac Aelodau Llywodraeth Cymru yn elwa o fod yn gyfaill i'w gilydd i gael persbectif gwahanol. Fodd bynnag, byddai llawer yn dibynnu ar faint o newid a welir yn yr Aelodaeth yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol. Serch hynny, cytunodd yr Aelodau y dylai'r cynllun fod yn wirfoddol. Bu peth trafodaeth ynghylch amseriad cyflwyno'r cynllun, a'r farn gyffredinol oedd y dylid rhoi peth amser yn gyntaf i'r Aelodau newydd ddod i ddeall gwaith yr Awdurdod.

Barnwyd hefyd bod datblygu cynllun mentora ar gyfer darpar Aelodau yn werthfawr. Atebodd y swyddogion bod cynllun tebyg wedi'i gynnal yn flaenorol, a hefyd bod dogfen wedi'i chynhyrchu ar gyfer pob cynghorydd oedd newydd eu hethol yn amlinellu gwaith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac y byddai'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu cyn yr etholiadau sydd i ddod. Yn ogystal, nodwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal yn ddiweddar rhwng yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan

arwain at gytuno ar Brotocol ar gyfer Dewis Cynghorwyr Sir ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; fel rhan o hyn, roedd y tri APC yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynhyrchu fideo fyddai'n rhoi trosolwg o'u gwaith.

b) Adolygiadau Datblygiad Personol
Gofynnwyd am farn yr Aelodau ar amseriad y broses o Adolygu Datblygiad Personol eleni, o ystyried y newid a ragwelir mewn Aelodaeth fis Mai/Mehefin oherwydd yr etholiadau Llywodraeth Leol, a hefyd sut y gellid datblygu mwy o ddisgwyl cyfranogiad ar gychwyn tymor Aelod. Awgrymodd y swyddog y dylid gohirio’r Adolygiad tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn i Aelodau newydd gael y cyfle i ddeall eu rôl yn yr Awdurdod. Barnai’r Aelodau ei bod yn bwysig peidio â cholli'r momentwm, ond yn cydnabod y pwysau ar Aelodau etholedig yn ystod misoedd Ebrill a Mai, ac awgrymwyd y gellid gohirio rownd 2022 am ychydig fisoedd.

Teimlai rhai Aelodau y dylai fod yn orfodol i lenwi’r Adolygiad, ond nad dyna oedd y farn yn gyffredinol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellid egluro’r broses fel rhan o'r cwrs sefydlu - neu hyd yn oed ei nodi yn y wybodaeth i ddarpar ymgeiswyr - a dylid annog Aelodau newydd yn gryf i gymryd rhan, gan amlinellu manteision cynnal yr Adolygiad. Awgrymwyd hefyd y dylid adolygu'r ffurflen i roi mwy o enghreifftiau o'r hyn y dylid ei gynnwys o dan pob adran, a chytunodd y swyddog i baratoi adroddiad ar hyn i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

c) Sefydlu Aelodau
Gofynnwyd am farn yr Aelodau ar sut y gellid gwella'r broses sefydlu bresennol. Cafodd nifer o awgrymiadau eu cynnig, gan gynnwys ymgorffori sesiynau ar ymddygiad/protocolau cyfarfodydd rhithiol, a thechnoleg gwybodaeth. Awgrymwyd y dylid pwysleisio pwysigrwydd y broses sefydlu, sy’n broses yn hytrach nag un sesiwn, drwy drefnu ymweliadau â safleoedd yr Awdurdod, ac i wahanol ardaloedd o’r Parc Cenedlaethol yng nghwmni Aelodau a/neu swyddogion eraill dros gyfnod o rai misoedd. Tynnwyd sylw hefyd at werth cwrs sefydlu Parciau Cenedlaethol y DU.

Hefyd roeddent yn cydnabod mai agwedd werthfawr o’r broses sefydlu oedd rhoi cyfle i Aelodau newydd siarad yn anffurfiol ag Aelodau presennol. Byddai hynny'n anodd pe bai cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal o bell, fodd bynnag, awgrymwyd y gellid cynnal sesiynau byr un-i-un rhwng Aelodau drwy gynhadledd fideo i'w galluogi i gyflwyno eu hunain i'w gilydd.

d) Cyfarfodydd o Bell
Wrth i'r Awdurdod ddechrau'r broses o gyflwyno Microsoft 365, gydag MS Teams yn blatfform cyfarfod, gofynnwyd am sylwadau gan yr

Aelodau ar y gwersi i'w dysgu o'r profiad o gynnal cyfarfodydd o bell. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau, gyda rhai Aelodau wedi'u cael yn ddefnyddiol, yn enwedig o ran ymateb yr Awdurdod i'r argyfyngau natur a newid yn yr hinsawdd, tra bod eraill yn teimlo bod anawsterau technegol, ar adegau, wedi peryglu eu gallu i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, gan fod yn rhaid i'r Awdurdod gynnig y gallu i Aelodau fynychu cyfarfodydd o bell, amlygwyd pwysigrwydd cymorth a hyfforddiant i atgyfnerthu'r drefn i'w dilyn mewn cyfarfodydd.

e) <u>Presenoldeb Aelodau</u>
Dywedwyd bod presenoldeb Aelodau yn y flwyddyn hyd yn hyn mewn cyfarfodydd yn 87% (targed 75%), tra bod presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi yn 62.5% (targed 65%).

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022 heb eu diwygio. |